Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 2ail o Fai 2023

1. Croeso

Rhoddwyd croeso gan y Cadeirydd Emma Chappell.

Ymddiheuriadau
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y cynghorwyr:
Rhian Evans-Hill, Gareth Griffiths

Presennol
Yn bresennol roedd Y Cadeirydd Emma Chappell, a'r Cynghorwyr Phyllis Ellis, Ynyr Parri. Idris Thomas, Elwyn Jones, Ellen George, Jane Pierce, Dawn Parry, Lowri Ann James, a Berwyn Parry Jones

Ni chafwyd presenoldeb, nag ymddiheuriad gan neb o'r cyhoedd eto eleni.

2. Gweddi
Rhoddwyd gair o weddi gan Idris Thomas

3. Cyfethol
Yn dilyn hysbysebu am sedd wag ym Methel, ond 1 ymgeisydd ddaeth i law. Felly Cynigiwyd fod Gareth Hughes yn cael ei benodi i gynrychioli Bethel ar y Cyngor Cymuned.

Jane Pierce (1) Phyllis Ellis (2)

Cytunwyd yn unfrydol.
Croeso iddo, ac rydym yn edrych ymlaen at ei groesawu yn swyddogol mis nesaf.

4. Ethol Cadeirydd am y Flwyddyn 2023 - 2024
Yn arferol bydd Cadeirydd penodedig yn y swydd am 2 flynedd. Mae Emma wedi Cadeirio am dymor o ddwy flynedd ac rydym yn ddiolchgar dros ben am ei gwaith yn cadw trefn mew amser ddigon anodd wrth ddod allan o gyfnod clo. Diolch o galon Emma. Yr arferiad, yw cynnig swydd cadeirio i'r is gadeirydd, Jane Pierce. Cytunodd Jane dderbyn y swydd am flwyddyn, a chytunwyd yn unfrydol.
Gyda Chadeirydd Etholedig yn y Gadair, diolchodd I Emma am ei gwaith, a'i bod yn edrych ymlaen at arwain y Cyngor eleni

5. Ethol Is-gadeirydd am y Flwyddyn 2023 - 2024
Cynigiwyd Ynyr Parri fel Is Gadeirydd. Derbyniwyd, ac mae yntau yn edrych ymlaen At lenwi bwlch yn absenoldeb y Cadeirydd.

Emma Chappell (1) Phyllis Ellis (2)

Cadeirydd……..

6. I gadarnhau swyddogion Pwyllgor Llwybrau Cyhoeddus
Cytunwyd i ethol 1 cynghorydd o bob pentref. Penodwyd:
Ynyr Parri, Dawn Parry, Elwyn Jones, Ellen George, Idris Thomas a Jane Pierce.

7. I gadarnhau swyddogion gyda gofal am swydd y Clerc a Swyddog Ariannol
Swyddogion fydd yn gofalu am swyddogaeth y clerc yn parhau fel y Cynghorwyr Gareth Griffiths, Phyllis Ellis a Rhian Evans-Hill

8 I greu Unrhyw bwyllgor arall yn ôl doethineb Y Cyngor, ac i ethol swyddogion i'r pwyllgorau, os yn briodol.
Penderfynwyd fod ddigon hyblyg yn y dyfodol lle os bydd angen neu os bydd achos yn codi yna bydd ddigon rhwydd ethol swyddogion y pryd hynny.

7. I gadarnhau cynrychiolydd ar Lywodraethwyr :

Ysgol Gynradd Gwaun Gynfi - neb ar hyn o bryd - y clerc i gysylltu â'r Ysgol I weld beth yw'r sefyllfa er mwyn i ni ethol llywodraethwr.
Ysgol Gynradd Penisa'r-waun - Phyllis Ellis yn hapus i barhau
Ysgol Gynradd Bethel - Gareth Hughes yn cynrychioli'r Cyngor.
Ysgol Rhiwlas - nid oes neb wedi bod ers tro gan nad oedd sedd i gynrychiolydd o 2 Gyngor Cymuned wahanol. Cyngor Cymuned Pentir sydd yn cynrychioli ar hyn o bryd, er mai ym mhlwyf Llanddeiniolen mae'r Ysgol.

8. I gadarnhau cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd Un Llais Cymru
Bydd y Clerc yn cynrychioli ar y cyfarfodydd yma eleni.

9. I gadarnhau cynrychiolydd ar Barc Cenedlaethol Eryri
Cynigiwyd fod Rhian Evans-Hill yn parhau i gynrychiolydd ar Barc Cenedlaethol Eryri'r tymor hwn. Y clerc i gysylltu i ofyn.

10. Neuadd Rhiwlas

Cytunodd Lowri Ann James I barhau yn cynrychioli'r Cyngor ar bwyllgor y Neuadd.

Cadeirydd……..

11. Adolygu Polisïau

Adolygwyd y Polisïau canlynol:

Cofrestr Rheoli Risg

Polisïau a Chanllawiau'r Cyngor

Rheolau Ariannol

Gweithdrefn Gwyno

Polisïau Cyfryngau Cymdeithasol

Datganiad Bio Amrywiaeth

Daeth hyn a'r Cyfarfod Blynyddol i ben am eleni. Diolchwyd i bawb am ymrwymo i'w gwaith, ac am ffurfio is-bwyllgorau yn rhwydd.

Cadeirydd……..